JUDICIAL
APPOINTMENTS
COMMISSION

. . . . . .

Pecyn Gwybodaeth:

00408: Ymarfer Dethol Barnwr Rhanbarth Sifil (gan gynnwys Prif Gofrestrfa'r Adran Deulu, y Llys Gwarchod) 2008/2009

. . . . . .

CYNNWYS

CYFLWYNIAD 1
YDYCH CHI'N GYMWYS? 2
ADDASIADAU RHESYMOL 4
DISGRIFIAD SWYDD 6
Y BROSES DDETHOL 8
CYSYLLTIADAU A RHAGOR O WYBODAETH 10
CANOLWYR A ENWEBIR GAN Y CPB 11
COMISIYNWYR Y CPB 12

CYFLWYNIAD

Mae'r Comisiwn Penodiadau Barnwrol (CPB) yn awr yn gwahodd ceisiadau am swydd Barnwr Rhanbarth yn yr awdurdodaeth Sifil, sy'n cynnwys llawer o gyfleoedd ar gyfer gweithio rhan-amser. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw **18 Rhagfyr 2008**. Mae swyddi ar gael ledled y wlad ym mhob Cylchdaith, yn ogystal â swyddi arbenigol ym Mhrif Gofrestrfa'r Adran Deulu (De Ddwyrain Lloegr yn unig) ac yn y Llys Gwarchod (De Ddwyrain Lloegr yn unig).

Ac eithrio'r Llys Gwarchod, mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi cadarnhau bod dewisiadau gwaith cyflogedig rhan-amser ar gael (gan gynnwys un swydd ym Mhrif Gofrestrfa'r Adran Deulu sydd **ond** ar gael ar gyfer 50% rhan-amser). Mae hyn yn dibynnu ar yr ymgeisydd llwyddiannus yn cwblhau unrhyw achosion a ddyrennir iddynt a bod ganddynt batrwm gwaith sy'n addas ar gyfer busnes y Llys. Os oes gennych ddiddordeb mewn gwaith rhan-amser, dylech ddarllen "Gwaith Cyflogedig Rhan-Amser: Canllaw Ymarferol (fel y'i diwygiwyd)" y Weinyddiaeth Gyfiawnder sydd ar gael ar ein gwefan. Bydd angen trafod a chytuno ar batrymau gweithio terfynol rhwng yr ymgeisydd llwyddiannus ac Ysgrifenyddiaeth y Gylchdaith berthnasol adeg penodi.

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi gofyn i ni argymell rhestr o 78 o bobl addas i'w penodi ar gyfer swyddi gwag y disgwylir iddynt godi dros y ddwy flynedd nesaf. O'r enwau hynny, bydd 13 ohonynt ar gyfer penodiad ar unwaith i swyddi gwag yn y Llysoedd Sirol, un ar gyfer Prif Gofrestrfa'r Adran Deulu ac un arall ar gyfer y Llys Gwarchod.

Nodir manylion llawn y cyfleoedd sydd ar gael isod:

CYLCHDAITH/ ARBENIGEDD	NIFER Y MAE EU HANGEN AR UNWAITH	NIFER Y PENODIADAU AR GYFER Y DYFODOL	A OES DEWIS I WNEUD GWAITH CYFLOGEDIG RHAN-AMSER?
Canolbarth Lloegr	2	7	Oes Mae'r holl swyddi sydd ar gael ar gyfer pecynnau eistedd sy'n cyfateb i swyddi cyfwerth ag amser llawn e.e. 50:50

Gogledd Ddwyrain Lloegr	0	9	Oes Mae 2 swydd ar gael ar gyfer pecynnau eistedd sy'n cyfateb i swyddi cyfwerth ag amser llawn e.e. 50:50
Gogledd Orllewin Lloegr	4	5	Oes Mae'r holl swyddi sydd ar gael ar gyfer pecynnau eistedd sy'n cyfateb i swyddi cyfwerth ag amser llawn e.e. 50:50
Cymru	1	4	Oes Mae 1 swydd ar gael yn y dyfodol ar gyfer pecynnau eistedd sy'n cyfateb i swyddi cyfwerth ag amser llawn e.e. 50:50
De Orllewin Lloegr	0	5	Nac oes
De Ddwyrain Lloegr/Llundain	6	27.5	Oes Mae 20% o swyddi ar gyfer pecynnau eistedd sy'n cyfateb i swyddi cyfwerth ag amser llawn e.e. 50:50
Prif Gofrestrfa'r Adran Deulu (De Ddwyrain Lloegr)	1	2.5	Oes Mae'r holl swyddi sydd ar gael ar gyfer pecynnau eistedd sy'n cyfateb i swyddi cyfwerth ag amser llawn ond byddai'n rhaid iddynt fod mewn blociau o wythnosau
Llys Gwarchod (De Ddwyrain Lloegr)	1	3	Nac oes

Mae'r pecyn hwn yn cynnwys y wybodaeth y bydd ei hangen arnoch am y penodiadau. Mae'n cynnwys y meini prawf cymhwysedd a'r disgrifiad swydd. Mae hefyd yn disgrifio'r broses ddethol y bydd y CPB yn ei dilyn, gyda dyddiadau perthnasol a chyngor am sut i baratoi ar gyfer camau gwahanol y broses hon.

Cyn y gellir ystyried eich penodi, rhaid i chi fodloni rhai gofynion cymhwysedd. Mae'n rhaid i'r CPB hefyd asesu eich cymeriad. Cyn gwneud cais dylech ddarllen y gofynion hyn a'r canllawiau y mae'r CPB yn eu defnyddio i asesu cymeriad. Gellir gweld y rhain ar ein gwefan (www.judicialappointments.gov.uk) ynghyd â braslun o delerau ac amodau'r gwasanaeth ar gyfer y swyddi hyn. Bydd angen i chi ddangos hefyd y rhinweddau a'r galluoedd sy'n ofynnol ar gyfer y swydd hon.

Y Comisiwn Penodiadau Barnwrol annibynnol sy'n dewis ymgeiswyr ar gyfer swyddi barnwrol. Bydd yn gwneud hynny ar sail teilyngdod, drwy gystadleuaeth deg ac agored, o blith y dewis ehangaf o ymgeiswyr cymwys.

YDYCH CHI'N GYMWYS?

Penodir Barnwyr Rhanbarth gan Ei Mawrhydi ar argymhelliad yr Arglwydd Ganghellor. I fod yn gymwys i'w benodi'n Farnwr Rhanbarth, rhaid i ymgeisydd fodloni'r gofynion canlynol:

Gofyniad statudol

Dan adran 9 Deddf Llysoedd Sirol 1984, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Llysoedd a Gwasanaethau Cyfreithiol 1990 a pharagraff 15 Atodlen 10 Deddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007, ni phenodir neb yn Farnwr Rhanbarth oni bai ei fod yn bodloni'r amod cymhwysedd penodi ar sail 5 mlynedd.

Er mwyn bodloni'r cymwysterau statudol ar gyfer penodi, rhaid i dwrnai (neu ddeilydd swydd farnwrol gyflogedig a oedd gynt yn dwrnai) ymddangos ar y Rôl.

Mae Deddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodi 2007 wedi cyflwyno'r **amod cymhwysedd penodiad barnwrol'**. Lle mae hyn yn berthnasol, nid yw cymhwyso ar gyfer swydd farnwrol yn seiliedig bellach ar feddu ar hawl i ymddangos am gyfnod penodol. Bydd yn rhaid i chi ddangos:

- eich bod yn meddu ar gymhwyster cyfreithiol perthnasol;
- am y cyfnod gofynnol; a
- thra bod gennych y cymhwyster hwnnw eich bod wedi cael profiad cyfreithiol.

Cymhwyster Perthnasol

Mae gennych gymhwyster perthnasol os ydych:

Yn dwrnai neu'n fargyfreithiwr.

Profiad Cyfreithiol

Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer penodiad barnwrol, nid yn unig y mae'n rhaid i chi feddu ar y cymhwyster perthnasol, ond y mae'n rhaid eich bod hefyd wedi ymgymryd â 'gweithgarwch sy'n gysylltiedig â'r gyfraith' pan oeddech yn meddu ar y cymhwyster hwnnw.

Ystyrir gweithgarwch yn weithgarwch sy'n gysylltiedig â'r gyfraith p'un ai a yw'n cael ei gyflawni gyda thâl ai peidio, a p'un ai a yw'n cael i gyflawni ar sail amser llawn neu ran-amser.

Ystyr Gweithgarwch sy'n Gysylltiedig â'r Gyfraith

Mae pob un o'r canlynol yn weithgarwch perthnasol sy'n gysylltiedig â'r gyfraith:

a) Cyflawni swyddogaethau barnwrol unrhyw lys neu dribiwnlys

b) Gweithredu fel cyflafareddwr

c) Ymarfer fel cyfreithiwr neu'n cael ei gyflogi fel un

d) Cynghori (yn ystod cyfnod o ymarfer neu gyflogaeth fel cyfreithiwr ai peidio) ar ddefnyddio'r gyfraith

e) Cynorthwyo (yn ystod cyfnod ymarfer o'r fath ai peidio) unigolyn sy'n ymwneud ag achosion i benderfynu ar faterion sy'n codi dan y gyfraith

f) Gweithredu (yn ystod cyfnod ymarfer o'r fath ai peidio) fel cyfryngwr mewn cysylltiad ag ymgais i benderfynu ar faterion sy'n destun achos, neu a allai fod yn destun achos os na chânt eu penderfynu

g) Drafftio (yn ystod cyfnod ymarfer o'r fath ai peidio) dogfennau a fwriedir i effeithio ar hawliau neu rwymedigaethau unigolyn

h) Dysgu neu ymchwilio'r gyfraith

i) Unrhyw weithgaredd sydd, ym marn y sawl sy'n gwneud y penderfyniad perthnasol, o natur gyffredinol tebyg i weithgaredd ym mharagraffau (a) i (h)

Bwriedir i gategori b) gwmpasu achosion o gyflafareddu lle caiff anghydfodau cyfreithiol eu datrys ar sail gymharol ffurfiol a strwythuredig. Er enghraifft, byddai'n cwmpasu achosion o gyflafareddu sy'n cael eu rheoli gan Ddeddf Cyflafareddu 1996, ac yn cael eu cyflawni gan unigolyn sydd wedi'i achredu gan gorff megis CEDR (Y Ganolfan Datrys Anghydfodau'n Effeithiol).

Bwriedir i gategorïau d) i g) hefyd gwmpasu gweithgareddau a gyflawnir ar sail gymharol ffurfiol a strwythuredig, er enghraifft gwirfoddolwyr sy'n rhoi cyngor cyfreithiol mewn canolfan gyfreithiol, neu ganolfan cyngor ar bopeth. Fodd bynnag, nid ydynt wedi'u bwriadu i gynnwys (er enghraifft) rhywun sy'n rhoi cyngor anffurfiol i ffrindiau a chymdogion.

Bwriedir i gategori (e) gwmpasu cymorth cyfreithiol, yn hytrach na mathau eraill o gymorth.

Bwriedir i gategori (g) gwmpasu drafftio sy'n gofyn am grebwyll a sgiliau cyfreithiol, megis drafftio contractau a phrydlesau. Nid yw wedi'i fwriadu i gwmpasu drafftio a allai effeithio ar hawliau neu rwymedigaethau, yn hytrach tasgau gweinyddol ydynt yn eu hanfod, e.e. llenwi gorchmynion gorfodi, neu hysbysiadau cosbi.

Diben (i) yw cwmpasu posibilrwydd rhai mathau o weithgarwch sy'n gysylltiedig â'r gyfraith na fyddai'n gwbl berthnasol i (a) i (h).

Diystyrir eich cysylltiad â gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r gyfraith mewn cyfnod os bydd y cysylltiad hwn yn 'ddibwys yng nghyswllt faint o amser a ymrwymwyd'.

Prif Gofrestrfa'r Adran Deulu

Yn ogystal â'r meini prawf uchod, yr ydych hefyd yn gymwys i wneud cais am swyddi ym Mhrif Gofrestrfa'r Adran Deulu os ydych:

- Yn gofrestrydd profiant dosbarth sydd naill ai—

  (a) wedi ymgymhwyso ers o leiaf 5 mlynedd, neu

  (b) yn ystod rhyw gyfnod o'r 5 mlynedd yn union cyn dechrau eich swydd os nad ydych wedi bod yn gofrestrydd profiant dosbarth, wedi bod yn was sifil yn y brif gofrestrfa neu yn y gofrestrfa brofiant ddosbarth.

- Gwas sifil sydd wedi gwasanaethau am o leiaf 7 mlynedd yn y brif gofrestrfa neu yn y gofrestrfa brofiant ddosbarth.

Gwasanaeth blaenorol mewn swydd farnwrol

Fel arfer, mae'r Arglwydd Ganghellor yn disgwyl i unigolion fod wedi gwasanaethu mewn swydd farnwrol lle derbynnir ffi am o leiaf ddwy flynedd, neu fod wedi cwblhau o leiaf 30 o ddiwrnodau eistedd lle derbyniwyd ffi cyn y cânt eu hystyried ar gyfer swydd ar gyflog.

Oed

Nid oes dim terfyn oed uchaf nac isaf ar gyfer ymgeiswyr am y swydd hon ar wahân i'r oedran ymddeol statudol o 70. Fodd bynnag, bydd yr oedran ieuengaf ar gyfer penodiadau yn dibynnu yn rhannol ar fod yn rhaid i unigolion fod wedi cymhwyso fel bargyfreithwyr neu dwrneiod am y nifer benodol o flynyddoedd sy'n ofynnol drwy statud. Rhaid i'r oedran pryd y penodir rhywun, ganiatáu cyfnod rhesymol o wasanaeth, fel arfer oddeutu **tair** blynedd.

Cenedligrwydd

Rhaid i chi lenwi datganiad o'ch cenedligrwydd yn y Ffurflen Gais. I fod yn gymwys ar gyfer y swydd hon, rhaid i chi fod yn ddinesydd:

- y Deyrnas Unedig; neu
- un o wledydd eraill y Gymanwlad; neu
- Weriniaeth Iwerddon.

Cymeriad

Mae'n ofynnol i'r CPB drwy statud benodi unigolion o gymeriad da yn unig. Er mwyn gwneud yr asesiadau hyn, rydym wedi datblygu Canllawiau ar Gymeriad Da sydd ar gael ar ein gwefan yn www.judicialappointments.gov.uk. Gallwch hefyd ysgrifennu atom i wneud cais am gopi (gweler adran 'Cysylltiadau a Rhagor o Wybodaeth' y pecyn gwybodaeth hwn ar gyfer ein manylion cyswllt).

Mae'r Canllawiau ar Gymeriad Da yn rhoi rhyw syniad i chi ynghylch a oes unrhyw beth yn eich ymddygiad yn y gorffennol neu eich amgylchiadau presennol a allai effeithio ar eich cais am benodiad barnwrol. Dylech eu darllen yn ofalus cyn llenwi'r Ffurflen Gais.

Cymeriad da – cwestiynau a datganiadau

Mae'n ofynnol i chi ateb nifer o gwestiynau yn y Ffurflen Gais sy'n ymwneud â chymeriad da a rhaid i chi wneud datganiadau priodol yn ôl y gofyn.

Nid yw ymgeiswyr am benodiadau barnwrol yn cael eu gwarchod gan adrannau 4(2) a 4(3) Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974. Felly, dylid datgan yn ysgrifenedig unrhyw euogfarnau a fyddai fel arfer yn cael eu hystyried yn rhai sydd wedi darfod dan y Ddeddf honno (Gorchymyn Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) 1975). Rhaid i chi roi manylion pob trosedd yr ydych wedi eich cael yn euog ohono neu wedi cael rhybuddiad mewn cysylltiad ag ef. Dylai'r manylion gynnwys natur pob trosedd, dyddiad yr euogfarn neu'r rhybudd, a'r gosb a gafwyd.

Lle bo achos o unrhyw fath yn yr arfaeth, dylech roi manylion y trosedd yr ydych wedi'ch cyhuddo ohono neu'r broses ddisgyblu yr ydych yn rhan ohoni ac, os yw hynny'n hysbys, dyddiad gwrando'r achos neu'r cam gweithredu. Mae'n bwysig eich bod yn rhoi gwybod i ni am ganlyniad unrhyw achos neu gam gweithredu a ddaw i ben wrth i'ch cais gael ei ystyried. Yn yr un modd, os cewch eich cyhuddo o unrhyw drosedd neu os deuir ag unrhyw gamau gweithredu yn eich erbyn ar ôl i chi gyflwyno eich cais, dylech roi gwybod i ni ar unwaith (gweler adran 'Cysylltiadau a Rhagor o Wybodaeth' y Pecyn Gwybodaeth hwn).

Ar gyfer pob un, darparwch gymaint ag y bo modd o fanylion a nodwch a oes unrhyw ffactorau lliniarol y dylai'r CPB, yn eich barn chi, eu hystyried wrth asesu eich cymeriad da.

Archwiliadau cymeriad da

Bydd y CPB hefyd yn cynnal archwiliadau o'r holl ymgeiswyr y mae'n bwriadu eu hargymell ar gyfer eu penodi. Bydd rhagor o wybodaeth am yr archwiliadau hyn yn cael ei darparu ar wahân i ymgeiswyr perthnasol.

Os byddwch yn peidio â datgan unrhyw faterion a ddaw i'r golwg yn sgil yr archwiliadau hyn, gall fod yn niweidiol i ganlyniad eich cais.

Gwahardd

Dylech nodi bod Deddf Anghymhwyso Tŷ'r Cyffredin 1975 yn berthnasol i'r swydd hon.

ADDASIADAU RHESYMOL

Mae'r CPB wedi ymrwymo i ystyried unrhyw addasiadau rhesymol sy'n ofynnol i sicrhau y gallwch gyfrannu'n deg at y broses ddethol. Mae'r Ffurflen Gais yn gofyn i chi nodi unrhyw drefniadau ac addasiadau y bydd eu hangen arnoch o bosibl. Ystyrir y ceisiadau ar sail achosion unigol ac ni ddefnyddir yr wybodaeth a roddir i wneud penderfyniadau wrth ddethol.

Os cewch eich argymell ar gyfer y swydd, ystyrir addasiadau rhesymol os oes gennych anabledd yn ôl ystyr y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd, fel y gwneir ar gyfer barnwyr sy'n ymarfer, ac sy'n magu nam neu gyflwr iechyd hirdymor. Bydd unrhyw addasiadau rhesymol i'ch galluogi i dderbyn apwyntiad yn cael eu trafod ar wahân gyda chi gan Wasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi ar ôl i'r CPB wneud ei argymhelliad.

DISGRIFIAD SWYDD

Mae'r wybodaeth ganlynol wedi'i darparu gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder:

Barnwr Rhanbarth

DIBEN Y SWYDD

1. Diben swydd farnwrol yw gweinyddu cyfiawnder yn unol â chyfreithiau Cymru a Lloegr.

2. Mae Barnwyr Rhanbarth yn tyngu'r llw barnwrol (neu'n cadarnhau) y byddant yn gwasanaethu'n ofalus a chywir ein Harglwyddes Frenhines Elisabeth yr Ail yn y Swydd o Farnwr Rhanbarth ac yn delio'n gywir â phob math o bobl yn ôl deddfau ac arferion y Deyrnas hon, heb ofn na ffafr, hoffter na drwgdeimlad.

PRIF WEITHGAREDDAU

3. Mae gweithgareddau Barnwr Rhanbarth yn cynnwys gwrandawiadau mewn llys agored, gwrandawiadau yn siambrau'r barnwr a gwneud penderfyniadau ar bapur:

    - Sicrhau y galluogir partïon, pa un a ydynt wedi'u cynrychioli ai peidio, i gyflwyno'u hachosion, ac iddynt gael eu hystyried, mor llawn ac mor deg ag sy'n bosibl;

- Mewn achosion sifil, diwyd-reoli hawliadau a amddiffynnir hyd at dreial, gan hyrwyddo prif amcan Rheolau Trefniadaeth Sifil 1998, sef galluogi'r Llys i ddelio'n gyfiawn ag achosion;
- Paratoi ar gyfer treialon neu wrandawiadau gan gynnwys darllen a deall papurau'r achos yn iawn cyn i'r gwrandawiad ddechrau;
- Penderfynu ar faterion yn ymwneud â ffeithiau, y gyfraith a gweithdrefnau a all godi wrth reoli achos ac yn ystod treial neu wrandawiad;
- Rhoi dyfarniadau rhesymedig;
- Rheoli (yn unol â'r gyfraith berthnasol a gweithdrefnau'r Uchel Lys neu'r llys sirol) y ffordd y caiff pob achos ei gynnal gyda golwg ar sicrhau bod partïon, boed hwy'n cael eu cynrychioli ai peidio, yn cael eu hachosion wedi'u cyflwyno a'u hystyried mor llawn ac mor deg ag sy'n bosibl.
- Ym mhob achos, hybu'r ffordd gyflymaf o ymdrin â'r busnes sy'n gydnaws â buddiannau cyfiawnder;
- Cynnal awdurdod ac urddas y Llys bob amser.

(Mewn achosion teulu, cynhelir y rhan fwyaf o wrandawiadau mewn siambrau lle defnyddir dull mwy anffurfiol fel arfer ac mae Barnwr Rhanbarth yn cymryd rôl fwy uniongyrchol wrth geisio cael y dystiolaeth a'r ffeithiau gan y partïon).

GELLIR CAEL RHAGOR O WYBODAETH AM:

- Gyfrifoldebau eraill
- Nodiadau ar Awdurdodaeth
- Telerau ac Amodau

ar ein gwefan (www.judicialappointments.gov.uk).

Y BROSES DDETHOL

Ffurflen gais
Mae manylion y nodweddion a'r galluoedd a ddefnyddir i'ch asesu yn y Ffurflen Gais. Gallwch ddefnyddio holl ystod eich gwaith a'ch profiad personol i ddangos y nodweddion a'r galluoedd hyn, gan gynnwys, er enghraifft, gwaith gwirfoddol neu unrhyw gyhoeddiad yr ydych wedi cyfrannu ato. Byddwch yn benodol wrth roi gwybodaeth.

Amserlen

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau	**18 Rhagfyr 2008**
Dyddiad dros dro ar gyfer y profion cymhwyso	**4 Mawrth 2009**
Dyddiad(au) dros dro ar gyfer y diwrnod dethol	**11 Mehefin – 2 Gorffennaf 2009**

Llunio'r rhestr fer
Bydd yr holl ymgeiswyr cymwys yr asesir bod ganddynt gymeriad da yn cael eu gwahodd i brawf cymhwyso ysgrifenedig, sef y cam cyntaf yn y broses. Disgwylir i chi sicrhau eich bod ar gael ar yr un diwrnod a ddewisir ar gyfer y prawf. Cewch ddangos ar y Ffurflen Gais pa leoliad fyddai orau gennych, caiff hyn ei ystyried ond ni allwn warantu y bydd lleoedd ar gael.

Y prawf cymhwyso fydd yr unig ddull a ddefnyddir i roi ymgeiswyr ar y rhestr fer ar gyfer y diwrnodau dethol yn yr ymarfer dethol hwn. Mae llunio'r rhestr fer yn broses gystadleuol, felly cynlluniwyd y prawf i fod yn un dyrys, gyda phwysau amser. Caiff yn ei sefyll dan amodau arholiad.

Cofiwch er y caiff yr holl nodweddion a galluoedd a nodir yn y Ffurflen Gais eu hasesu fel rhan o'r broses ddethol, ni chânt i gyd eu hasesu ar y cam llunio'r rhestr fer. Dyfeisiwyd y prawf i asesu:

- Gallu Deallusol – gallu amgyffred a dadansoddi gwybodaeth yn gyflym;
- Nodweddion Personol – barn gadarn a phendantrwydd;
- Awdurdod a Sgiliau Cyfathrebu – gallu esbonio'r drefn ac unrhyw benderfyniadau a wneir yn glir ac yn gryno i bawb sy'n gysylltiedig;
- Effeithlonrwydd – gallu gweithio'n gyflym a dan bwysau, gallu trefnu amser yn effeithiol a chynhyrchu dyfarniadau rhesymedig clir yn gyflym.

Mae'r prawf wedi'i lunio gan farnwyr a barnwyr fydd yn ei farcio. Mae wedi'i gynllunio i fod yn addas i ymgeiswyr o bob cefndir. Bydd yn cynnwys 2 astudiaeth achos, un mewn awdurdodaeth sifil ac un mewn awdurdodaeth teulu. Disgwylir i chi lunio barn yn y ddau achos. Darperir statudau a chyfraith achos perthnasol. I gael rhagor o wybodaeth am y prawf, edrychwch ar ein gwefan yn www.judicialappointments.gov.uk.

Bydd dethol ymgeiswyr ar gyfer cyfweliad yn seiliedig ar ganlyniadau'r prawf cymhwyso'n unig. Mae'n ddrwg gennym na allwn ddarparu esboniadau nac adborth ysgrifenedig i ymgeiswyr na chânt eu henwi ar y rhestr fer. Ar ôl y prawf ysgrifenedig, os cewch eich rhoi ar y rhestr fer, byddwch yn cael eich gwahodd i ddiwrnod dethol yn Llundain. Anfonir manylion pellach gyda'r gwahoddiad i chi fynychu.

Geirdaon
Gallwn geisio gwybodaeth gan bobl sydd mewn sefyllfa dda i roi sylwadau ar sut yr ydych chi'n bodloni'r nodweddion a'r galluoedd. Cysylltir â chanolwyr fel arfer ar ôl y prawf cymhwyso ond cyn i'r diwrnod dethol ddigwydd. Os ydych eisoes yn Ddirprwy Farnwr Rhanbarth, gofynnir am eich gwerthusiad diweddaraf. Fel arfer bydd y deunydd a ddarperir gan y canolwyr yn cyfrannu at

y penderfyniadau a wneir gan y panel dethol a'r penderfyniadau terfynol o ran dethol gan Gomisiynwyr.

Canolwyr a enwebir gan yr ymgeiswyr
Gwahoddir chi i enwebu hyd at **dri** o ganolwyr sy'n eich adnabod yn dda naill ai'n bersonol neu'n broffesiynol. **Rydym yn argymell yn gryf eich bod yn holi eich canolwr nad ydych yn ei roi mewn sefyllfa anodd.**

Bydd y Comisiwn Penodiadau Barnwrol yn cysylltu â'r holl ymgeiswyr a fydd yn cael eu gwahodd i ddigwyddiadau diwrnod dethol sydd wedi nodi eu bod yn gallu siarad Cymraeg, ac yn gofyn iddynt enwebu canolwr arall i gadarnhau eu gallu.

Canolwyr a enwebir gan y CPB
Mae'n bosibl hefyd y bydd y CPB yn gofyn am eirdaon gan y rhai a nodir yn adran 'Canolwyr a Enwebir gan y CPB' y pecyn hwn.
Darparwch enw, teitl, swydd a chyfeiriad eich canolwyr proffesiynol a barnwrol perthnasol. Gallwch ddweud wrthym hefyd os nad ydych yn dymuno i ni gysylltu â'ch canolwr proffesiynol perthnasol ar hyn o bryd, ond mae'n rhaid i chi roi rhesymau. Os nad ydych yn dal swydd farnwrol ar hyn o bryd a heb gynnwys eich canolwr proffesiynol perthnasol, mae'n rhaid i chi awgrymu canolwr amgen sy'n gyfarwydd â'ch gwaith.

Gwrthdaro buddiannau
Rhestrir y Comisiynwyr Penodiadau Barnwrol yng nghefn y pecyn hwn. Ni ddylech enwebu Comisiynydd fel canolwr. Dylech nodi yn y Ffurflen Gais hefyd os ydych yn perthyn mewn unrhyw ffordd i unrhyw un o'r Comisiynwyr neu'n hysbys iddynt, a rhoi manylion.

Canlyniad yr ymarfer dethol
Caiff argymhellion ar gyfer penodi eu gwneud ar sail teilyngdod gan ystyried geirdaon a sylwadau ymgynghori statudol. Cymaint ag y bo modd, ystyrir unrhyw ddewisiadau cyntaf a fynegir ar gyfer y rheini sy'n gwneud cais am fwy nag un swydd wag. Fe'ch hysbysir am ganlyniad eich cais drwy lythyr. Os byddwch yn aflwyddiannus yn y cyfweliad, gallwch ofyn am esboniad ysgrifenedig. Dylech wneud y cais hwn o fewn 6 wythnos i ddyddiad y llythyr a oedd yn eich hysbysu na fuoch yn llwyddiannus. Ceisiwn ymateb i'ch cais o fewn pedair wythnos waith.

Trefn gwyno
Os byddwch yn anfodlon ag unrhyw agwedd o'r ffordd yr ymdriniwyd â'ch cais, dylech gyfeirio at drefn gwyno gyhoeddedig y CPB, sydd ar gael oddi ar ein gwefan.

CYSYLLTIADAU A RHAGOR O WYBODAETH

Cael ffurflen gais

Mae'r holl wybodaeth ynghylch sut i wneud cais am yr ymarfer dethol hwn ar gael yn www.judicial-appointments.org.uk (ymarferion dethol cyfredol).
Gellir derbyn y Ffurflen Gais ar gyfer yr ymarfer dethol hwn ar ffurf electronig trwy ei llwytho oddi ar y wefan.
Cysylltwch â thîm y Gwasanaeth Ceisiadau Penodiadau Barnwrol (GCPB) yn y CPB os ydych am gael copi caled o'r Ffurflen Gais neu'r Pecyn Gwybodaeth, neu os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch cyflwyno'ch cais.
Os bydd angen y ffurflen a/neu'r pecyn arnoch mewn fformat gwahanol, er enghraifft mewn Braille, cysylltwch â thîm y GCPB.

Cydnabod eich cais
Dylech dderbyn cydnabyddiaeth o'ch cais cyn pen 5 diwrnod gwaith i'r dyddiad y derbynnir eich cais. Os na chewch chi gydnabyddiaeth, dylech gysylltu â'r tîm GCPB dros y ffôn neu'r e-bost.

Sylwer y caiff pob gohebiaeth gan y CPB ei hanfon gan ddefnyddio post wedi'i gofnodi.

Manylion cysylltu
1. GCPB

Cyfeirnod : 00408 (Defnyddiwch y cyfeirnod hwn ar bob gohebiaeth)
Judicial Appointments Commission
2nd Floor, Steel House
11 Tothill Street
Llundain
SW1H 9LH
DX 149822 WESTMINSTER 6
E-bost: jaas@jac.gsi.gov.uk
Ffôn: 020 3334 0123

2. Tîm yr Ymarfer Dethol:

Chris D'Souza	**020 3334 0548**	Cyfarwyddwr Cynorthwyol
Vicki Heath	**020 3334 0199**	Dirprwy Reolwr yr Ymarfer Dethol

E-bost: Chris.D'Souza@jac.gsi.gov.uk
Ffacs: 020 3334 0300

3. Cyfarwyddwr:

Jane Andrews **020 3334 0508**

CANOLWYR A ENWEBIR GAN Y CPB

Mae'n bosibl y bydd y CPB hefyd yn gofyn am eirdaon o'r categorïau a restrir isod.

Canolwyr Barnwrol

Os ydych yn dal swydd farnwrol nad yw ar y rhestr hon, cysylltwch â'r CPB er mwyn inni allu ystyried pwy ddylai gael ei enwebu fel eich canolwr barnwrol.

Os ydych yn eistedd ar Dribiwnlys, Llywydd y Tribiwnlys neu unigolyn cyfatebol.

Os ydych yn Gofiadur, y Barnwr Preswyl, y Barnwr Sifil Dynodedig neu'r Barnwr Teulu Dynodedig yn y llys(oedd) lle'r ydych yn eistedd amlaf.

Os ydych yn Farnwr Costau neu'n Ddirprwy Farnwr Costau, yr Uwch Farnwr Costau.

Os ydych yn Ddirprwy Farnwr Cylchdaith, y Barnwr Sifil Dynodedig lleol.

Os ydych chi'n Ddirprwy Farnwr Rhanbarth Prif Gofrestrfa'r Adran Deulu neu'n Uwch Farnwr Rhanbarth (Prif Gofrestrfa'r Adran Deulu).

Os ydych chi'n Ddirprwy Farnwr Rhanbarth (Llysoedd Ynadon), yr Uwch Farnwr Rhanbarth (Llysoedd Ynadon).

Os yw'r ymgeisydd yn Siryf, y Prif Siryf (yr Alban yn unig)

Canolwr proffesiynol

Os ydych yn dwrnai, eich partner rheoli neu bartner ecwiti perthnasol.
Os ydych yn fargyfreithiwr, Pennaeth eich Siambrau.
Os ydych yn fargyfreithiwr, eich uwch aelod o Lyfrgell y Bar (Gogledd Iwerddon yn unig)
Os ydych yn adfocad, Deon Ffacwlti'r Adfocadau (yr Alban yn unig).
Os ydych yn gyflogedig, eich rheolwr llinell neu gyfatebol.

COMISIYNWYR Y CPB

Cadeirydd y CPB

Y Farwnes Usha Prashar CBE

Yr Aelodau

Mrs Ustus Jill Black DBE

Y Fonesig Lorna Boreland-Kelly DBE

Yr Athro Fonesig Hazel Genn DBE CF

Yr Arglwyddes Ustus Heather Hallett DBE

Ei Hanrhydedd y Barnwr Frances Kirkham

Syr Geoffrey Inkin OBE

Mr Edward Nally

Ms Sara Nathan

Barnwr Rhanbarth Charles Newman

Ei Anrhydedd y Barnwr David Pearl

Mr Francis Plowden

Ms Harriet Spicer

Mr Jonathan Sumption OBE CF

Yr Arglwydd Ustus Roger Toulson